Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: **India** tudalen 1 o 3.

India, Agrocel, Reis

Daearyddiaeth: Yr India yw'r seithfed wlad fwyaf yn y byd gydag arfordir yn ymestyn am fwy na 4,700 milltir. Ar ffin de-orllewin yr India mae Bae Arabia, i'r de-ddwyrain mae Bae Bengal ac i'r de Gefnfor yr India. I'r gogledd mae'r India'n terfynu â China, Bhutan a Nepal ac mae mynyddoedd yr Himalaya yn ffin naturiol. Mae ei ffin orllewinol â Phacistan yng Ngwastadedd Punjab ac AnialwchThar. Er mai dim ond 2.4% o arwynebedd y ddaear yw'r India, mae'n cynnal 15% o'i phoblogaeth. Mae bron i 40% o bobl India yn iau na 15 mlwydd oed. Mae tua chwarter poblogaeth yr India'n byw mewn trefi, bron iawn cymaint â chyfanswm poblogaeth Unol Daleithiau America! Mae mwy na 10 miliwn o bobl yn byw ym mhob un o ddinasoedd Delhi, Calcutta a Mumbai.

Gwers gyflym mewn Hindi:
sut i ddweud 'helo'

Dywedwch "Namasté (na-ma-ste)

Iaith

Mae yna 22 o ieithoedd rhanbarthol yn yr India, megis Bengali, Kashmiri a Gujariti. Hindi yw iaith swyddogol yr India ond dim ond 20% o'r boblogaeth sy'n ei siarad. Saesneg yw'r iaith a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin yn y wlad a hi yw'r iaith swyddogol ychwanegol ond mae gan bob talaith ei hiaith swyddogol ei hunan hefyd.

Photo: Brian Condor

Wyddech chi?

Ffermio yw gwaith y rhan fwyaf o bobl yr India, ac mae'n cyfrif am tua 52% o'r swyddi. Y prif gynnyrch amaethyddol yw reis, gwenith, olew hadau, cotwm, jiwt, te, cansen siwgwr, tatws, gwartheg, byfflo dŵr, defaid, geifr, dofednod a physgod.

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: **India** tudalen 2 o 3.

India, Agrocel, Reis

Ystyr y Faner

Sefydlwyd yr India fel gwladwriaeth annibynnol ym 1947. Mabwysiadodd yr India dri lliw – oren, gwyn a gwyrdd gyda Ashoka Chakra glas yn y canol. Mae'r Ashoka Chakra yn cynrychioli 'olwyn y gyfraith', pŵer y wladwriaeth i ddod â heddwch a ffyniant i'r wlad. Mae 24 adain i'r olwyn, sy'n symbol o 24 awr y dydd a'r cynnydd y mae'r wlad yn ei wneud bob awr. Pan gyflwynwyd y faner gyntaf ym 1931, roedd y lliwiau'n cynrychioli dau grŵp ethnic pennaf y wlad, y streipen oren yn symbol o bobl Hindŵ a'r streipen werdd yn symbol o Fwslemiaid. Mae'r streipen wen yn symbol o'r heddwch a ddeisyfir rhyngddyn nhw.

Crefydd: Hindŵ 80%, Islam 12%, Cristionogaeth 2%, Shikh 2%, Jainism 0.5%, Bwdaeth 0.7%

Poblogaeth: **1140 miliwn**
Dwysedd Poblogaeth: **360 o bobl y cilometr sgwâr**
Llythrennedd: **62.8%**
Plant wedi'u cofrestru mewn Addysg Gynradd: **89.8%**
Plant wedi'u cofrestru mewn Addysg Uwchradd: **66.4%**
Achosion HIV / AIDS yn y boblogaeth (15 – 49 mlwydd oed) : **0.8%**

Hinsawdd Mae'r India mor fawr fel nad yw'n ffitio i un parth amser. Mae wedi'i rhannu i bedair prif barth hinsawdd.

1) Alpaidd, yn uchel yn yr Himalaya.

2) Isdrofannol, yn rhannau mwyaf gogleddol India. Mae hafau'n boeth a gwlyb ond y tymheredd yn disgyn gryn dipyn yn y gaeaf.

3) Trofannol, yn cael ei rannu'n Fonsŵn Trofannol Gwlyb a Throfannol Sych.

4) Sych, gyda thymheredd uchel ac ychydig iawn o law, i'w gael yn bennaf yn rhan orllewinol y wlad.

Wyddech chi?

Mae gwisgoedd traddodiadol yr India'n amrywio mewn gwahanol rannau o'r wlad. Mae rhai poblogaidd yn cynnwys dillad gorchuddio, megis sari i ferched a dhoti neu lungi i ddynion. Gwisgir hefyd ddillad wedi'u pwytho megis salwar kameez i ferched a kurta-pyjama a throwsysau a chrysau yn y dull Ewropeaidd i ddynion.

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: **India** tudalen 3 o 3.

India, Agrocel, Reis

Hanes

3000 CC	1000 CC	527 CC	400 CC	1288	1500s	1611	1631
Gwareiddiad Dyffryn Indus	Hindŵaeth yn dechrau gwreiddio'n ddwfn	Rajputs yn creu tywysogaethau yng nghanol yr India ac yn Rajasthan	Ymerodraeth Maurya	Marco Polo yn ymweld â'r India	Ymerodraeth y Mogwl	Prydain yn sefydlu Cwmni Masnachu Dwyrain India	Adeiladu'r Taj Mahal

1751	1853	1857	1858	1919	1947	1971
Prydain yn dod y grym trefedigaethol cryfaf yn yr India	Cyflwyno rheilffyrdd, gwasanaethau post a thelegraff i'r India	Rhyfel Annibyniaeth cyntaf yr India	Coron Prydain yn cymryd llywodraeth yr India drosodd yn swyddogol	Cyflafan Jallianwalabagh	Yr India'n dod yn annibynnol a rhannu'r India a Phacistan.	Rhyfeloedd â Phacistan a rhyddhau Bangaladesh

Canolbwynt ar y Wlad: Talaith Haryana

Mae Haryana yng ngogledd yr India ar y ffin â'r Punjab i'r gogledd a Rajasthan i'r gorllewin a'r de. Mae hefyd yn amgylchynu Dehli ar dair ochr. Mae'r tir yn wastad ac yn dir âr a ffermwyr yw'r rhan fwyaf o'r boblogaeth.